
Diweddariad monitro blynyddol ar y farchnad bost

Y flwyddyn ariannol 2018-19

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

2

1. Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y prif ddata a thueddiadau yn y sector post yn ystod y flwyddyn ariannol 2018-19.

Mae'r fframwaith rheoleiddio a roddodd Ofcom ar waith ym mis Mawrth 2012, ac a adolygodd ym mis Mawrth 2017, wedi'i lunio i gyflawni ein dyletswydd statudol o sicrhau gwasanaeth post cyffredinol, gan ystyried effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol. Mae trefn fonitro barhaus ac effeithiol yn dal i fod yn un o'r prif ffyrdd o ddiogelu'r fframwaith rheoleiddio, ochr yn ochr â mwy o ryddid prisio i'r Post Brenhinol.

Mae'r ddogfen hon, yn ogystal ag amrywiaeth eang o ddata rhyngweithiol, yn rhan o'n wythfed diweddariad monitro blynyddol ar y sector post. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â chwe phrif faes: dadansoddiad o'r farchnad llythyrau; y farchnad parseli; profiad defnyddwyr a busnesau bach o ddefnyddio gwasanaethau post; perfformiad ariannol Busnes y Post Brenhinol; effeithlonrwydd Busnes y Post Brenhinol; a chydymffurfiaeth y Post Brenhinol â'r rheoliadau. Mae'r Busnes yn rhan o fusnes y Post Brenhinol sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cyffredinol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos a pharseli bum niwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf, i'r holl gyfeiriadau yn y DU.

Beth rydym wedi'i ganfod

Roedd niferoedd a refeniw llythyrau yn parhau i ostwng. Roedd niferoedd y llythyrau wedi'u cyfeirio wedi gostwng 8% i 10.2 biliwn eitem yn 2018-19. Roedd y gostyngiad yn fwy na'r flwyddyn flaenorol lle'r oedd gostyngiad o 5%. Yn gyffredinol, gostyngodd refeniw llythyrau 7% mewn termau real i £3.8bn.

Roedd niferoedd a refeniw parseli yn parhau i gynyddu. Cynyddodd cyfanswm y parseli 10% o un flwyddyn i'r llall, gan gyrraedd cyfanswm o 2.6 biliwn o eitemau. Roedd y cynnydd hwn ychydig yn is na chynnydd y llynedd o 11% o un flwyddyn i'r llall. Cynyddodd cyfanswm y refeniw 4%, gan gyrraedd £10 biliwn.

Roedd defnyddwyr yn dal yn fodlon gyda'r gwasanaethau post. Roedd dros wyth defnyddiwr preswyl o bob deg yn fodlon â'r Post Brenhinol (84%) a'r gwasanaethau post yn gyffredinol (86%). Yn yr un modd, dywedodd dros wyth o bob deg (86%) o fusnesau bach a chanolig sy'n defnyddio'r Post Brenhinol a darparwyr eraill (84%) eu bod yn fodlon.

Lansiwyd dau ymchwiliad yn erbyn y Post Brenhinol am dorri rhwymedigaethau rheoleiddio. Roedd un yn ymwneud â chydymffurfio a thargedau perfformiad penodol ansawdd y gwasanaeth ac roedd y llall yn ymwneud â phrisio yn uwch na'r lefel a ganiateir ar gyfer Post Ail Ddosbarth ar gyfer wythnos olaf y flwyddyn ariannol. Mewn perthynas â chydymffurfio â thargedau perfformiad ansawdd y gwasanaeth, yn 2018-19, dim ond 91.5% o'i bost Dosbarth Cyntaf cafodd ei ddanfôn gan y Post Brenhinol y diwrnod canlynol yn erbyn targed o 93%.

Roedd gostyngiad ar draws yr holl fetrigau effeithlonrwydd. Cynyddodd y costau go iawn ychydig ac roedd effeithlonrwydd cyffredinol yn negyddol. Ni chyrrhaeddodd y Post Brenhinol ei gynhyrchiant targed o 2-3%, na chydbwysu'r cynnydd mewn cyflogau gyda gostyngiad mewn oriau gros. Rydym yn dal i gredu bod enillion effeithlonrwydd yn hanfodol i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn gynaliadwy.

Gostyngodd proffidioldeb y rhan o'r Post Brenhinol sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Roedd elw Busnes EBIT y Post Brenhinol yn 1.6% ar gyfer 2018-19 (ar sail 52 wythnos), er nad yw sefyllfa ariannol a metrigau cyflwr ariannol (gan gynnwys statws credyd) Grŵp y Post Brenhinol ddim yn dynodi unrhyw faterion cyflwr ariannol yn y tymor byr. Mae cynaliadwyedd hirdymor yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys i ba raddau y gellir cyflawni'r twf mewn refeniw a'r rhaglen i drawsnewid y Post Brenhinol a nodwyd yn ei strategaeth bum mlynedd.

Datblygiadau diweddar

- 1.1 Ym mis Mai 2019, gosododd y Post Brenhinol ei strategaeth bum-mlynedd. Roedd y strategaeth yn rhagweld twf refeniw Grŵp o 2-3% y flwyddyn o 2019-20 i 2023-24.¹ Mae strategaeth y Post Brenhinol yn canolbwyntio'n gryf ar barseli, sy'n cyd-fynd â strategaeth gweithredwyr rhyngwladol tebyg i drawsnewid eu gweithrediadau o fusnes llythyrau at fusnes parseli.² Os bydd y strategaeth newydd yn mynd rhagddi fel mae'r Post Brenhinol yn rhagweld, mae'r Post Brenhinol yn disgwyl i'w fusnes yn y DU ddychwelyd i dwf refeniw erbyn 2023-24.³
- 1.2 Rydym yn cydnabod bod risgiau yn ymwneud â'r strategaeth, yn benodol canlyniad trafodaethau rhwng rheolwyr ac undebau ynghylch sut bydd y strategaeth yn cael ei chyflwyno, ynghyd â risgiau marchnad a macro-economaidd ehangach a allai effeithio ar allu'r Post Brenhinol i gynyddu refeniw parseli ar y gyfradd a ragwelwyd a/neu i leihau lefelau cyffredinol y galw am lythyrau a pharseli.
- 1.3 Yn ei gyhoeddiadau am ganlyniadau'r hanner blwyddyn, nododd y Post Brenhinol fod y trawsnewid yn rhedeg yn hwyr ac yn debygol o effeithio ar gynhyrchiant yn ystod ail hanner y flwyddyn. Hefyd, newidiodd y Post Brenhinol ei ragolwg ar gyfer y gostyngiad yn nifer llythyrau'r flwyddyn lawn gan ddisgwyl y bydd nifer y llythyrau yn gostwng 7-9% yn 2019-20 yn lle 5-7% fel y rhagwelwyd yn flaenorol. Dywedodd y Post Brenhinol, gyda

¹ Cyfrifir y twf o 2-3% y flwyddyn ar Gyfradd Twf Blynnyddol Cyfansawdd (CAGR). Gweler cyflwyniad canlyniadau a strategaeth 2018-19 y Post Brenhinol, sleid 43: <https://www.royalmailgroup.com/media/10705/fy-2018-19-results-and-strategy-presentation.pdf>

² Er enghraifft, mae gweithredwyr post yn yr Iseldiroedd, Denmarc a Sweden wedi cyflwyno awtomeiddio parseli'n ehangach.

³ Dywed y Post Brenhinol, rhwng 2015-16 a 2018-19 (ar sail 52 wythnos) gostyngodd refeniw UKPIL o £7,671bn i £7,595bn (-0.3%). Sleid 36, cyflwyniad canlyniadau a strategaethau 2018-19 y Post Brenhinol, <https://www.royalmailgroup.com/media/10705/fy-2018-19-results-and-strategy-presentation.pdf>

sefyllfa'r cysylltiadau diwydiannol ac enillion cynhyrchiant is na'r disgwyl, disgwylir i'w fusnes yn y DU adennill ei gostau neu wneud colled yn 2020-21.

- 1.4 Felly, rydym yn credu bod ansicrwydd o hyd ynghylch cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth cyffredinol. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, byddwn yn parhau i fonitro cynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol ac yn ymgysylltu â rheolwyr i ddeall yn well sut maent yn bwriadu lliniaru'r risg i gynaliadwyedd y gwasanaeth cyffredinol.